30.06.2022

Leah Dafydd
Cyswllt leah.dafydd@s4c.cymru
Ffôn Phone
03305 880418

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Rhai o gartrefi mwyaf trawiadol Cymru yn codi'r to!

I Gaernarfon, Ynys Môn a Chaerdydd aiff y cyflwynydd Aled Samuel a'r cynllunydd Mandy Watkins y tro hwn i fwynhau golygfeydd gorau tu mewn a thu allan i rai o dai mwyaf hyfryd Cymru mewn pennod newydd o **Dan Do**.

"Rhwng y llawr a'r nenfwd, rhwng yr aelwyd a'r freuddwyd, mae digon i'ch diddanu mewn sawl tŷ yr wythnos hon." medd Aled Samuel.

Gan ddechrau mewn bwthyn traddodiadol Gymreig ar Ynys Môn, mae Aled Samuel yn cael ei hudoli'n syth gyda chroeso Cymreig giât goch bwthyn Pen y Gamfa.

"Mae rhywbeth hyfryd ambiti bwthyn Cymreig yn does e, dim ffys o gwbl. Drws yn y canol, ffenest nail ochr i'r llall, crogloft a thân croesawgar." meddai Aled Samuel am y bwthyn.

Yn gartref i Ian Keith a'i bartner Gemma, maent wedi llwyddo rhoi stamp ei hunain ar y bwthyn ac wedi rhoi bywyd newydd i Pen y Gamfa.

"Gwelsom ni'r drws coch, ac oedd rhaid i ni gael gweld mwy!" meddai Ian.

Yn cyfuno'r hen a'r newydd, bellach ar ei newydd wedd, mae'r adeilad wedi'i lenwi â charthenni gwlân Melin Tregwynt sy'n nodwedd Gymreig, ac mae'r estyniad cynaliadwy ar gefn y bwthyn yn ymdebygu i sawna Swedeg!

Drws mawr Fictorianaidd melyn sy'n croesawu Mandy ar gyrion Caerdydd, sy'n gartref i Stacey a'i theulu. Yn dŷ Fictorianaidd gyda chyffyrddiadau cyfoes tu mewn, dyw Stacey ddim wedi bod ofn defnyddio lliwiau a mentro gyda phatrymau a gwead.

Meddai Stacey; "Roedd e'n ganfas plaen pan symudom ni i mewn…cyn symud i mewn doeddwn i ddim wedi arbrofi gyda lliw a dyluniadau mentrus, ond roedd e'n rhywbeth ro'n i wastad eisiau trio. Dwi'n hoff iawn o batrymau blodeuog, lliwiau tywyll, dwi'n hoff iawn o naws Fictorianaidd *moody*, gyda *modern twist*!"

Dyw cartref Stacey yn sicr ddim yn brin o liw a phatrwm. Mae ei chynllunio mentrus ac anturus yn gyson ar hyd y tŷ, gyda'r gegin yn dywyll â theimlad diwydiannol, a'r bath anferth copr yn yr ystafell ymolchi yn coroni'r cyfan.

I Gaernarfon aiff Aled a Mandy yn olaf, i ymweld â Bryn Helen sy'n gartref Sioraidd i Gwen a Jim. Yn brolio golygfa arbennig iawn o Gastell Caernarfon, dyma dŷ mae Mandy ac Aled wedi mynd heibio iddi sawl gwaith ac wedi torri bol eisiau gwybod sut mae'n edrych tu fewn. A doedd Mandy ddim wedi'i siomi wrth gamu i mewn.

“Mae o union fatha sut fasa chdi’n gobeithio iddo fo edrych.” meddai.

Mae Aled a Mandy wedi eu plesio gyda naws y tŷ sydd wedi’i addurno i’r cyfnod. Yn urddasol a chlasurol, mae’r elfen Sioraidd yn amlwg drwy’r tŷ gyda lliwiau a dodrefn wedi’u dewis yn gywrain.

O’r mentrus i’r clasurol, mae **Dan Do nos Fercher 13 Gorffennaf am 8.25** yn sicr yn arlwy i’r llygaid.

**Dan Do**
**Nos Wener 13 Gorffennaf 8.25, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Boom Cymru ar gyfer S4C**

30.06.2022

Leah Dafydd
Cyswllt leah.dafydd@s4c.cymru
03305 880418 / 07887 455572

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Stunning Welsh homes raise the roof!

Caernarfon, Anglesey and Cardiff are the stop offs for presenter Aled Samuel and designer Mandy Watkins in this episode of **Dan Do,** to enjoy the best views inside and outside some of the most delightful homes in Wales.

"Between the floor and ceiling, the house and the dream home, there's plenty to entertain you this week," says Aled Samuel.

Starting in a traditional Welsh cottage in Anglesey, Aled is mesmerised by the welcoming red gate of Pen y Gamfa.

"There's something about a Welsh cottage, no fuss at all. Door in the middle, a window either side, crog loft and a welcoming fire," says Aled Samuel.

Home to Ian Keith and his partner Gemma, they've managed to put their own stamp on the cottage, giving this cottage a new lease of life.

"We saw the red door, and we had to see more!" says Ian.

Combining the old with the new, Melin Tregwynt's furnishings and blankets are a nod to its Welshness, while the eco extension at the back of the cottage resembles a Swedish sauna!

Down south, a big yellow Victorian door welcomes Mandy on the outskirts of Cardiff, home to Stacey and her family. A Victorian house with modern touches inside, Stacey hasn't been shy using colour, bold patterns and textures.

Stacey says: "It was a blank canvas when we moved in...before moving into this house I hadn't experimented with colours and bold patterns but it was something I always wanted to try. I like flowery patterns, dark colours, a Victorian moody vibe with a modern twist!"

Her bold and adventurous design is everywhere throughout the house, in particular the dark kitchen and its industrial feel, while a large copper bath is the house's crowning glory.

Last stop for Aled and Mandy is Caernarfon, to visit Bryn Helen, Gwen and Jim's Georgian home. Boasting an amazing view of Caernarfon Castle, Mandy and Aled have passed this house numerous times over the years and have been itching to see what it's like inside. Mandy wasn't disappointed when she stepped inside Bryn Helen.

"It's exactly how you'd hope it would look," Mandy says.

Aled and Mandy are impressed with the house's decor. Elegant and classy, the Georgian element is obvious throughout with colours and furniture chosen to reflect the house's past.

From the bold to the classic, **Dan Do** which will be shown on **Wednesday 13 July at 8.25** is certainly a feast for the eyes.

**Dan Do**
**Wednesday 13 July 8.25, S4C**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Boom Cymru production for S4C**